# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Cryfhau Teuluoedd: Diwygiadau Deddfwriaethol ar gyfer Mabwysiadu, Maethu a Gofal gan Berthynas yng Nghymru** |
| **Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):** | **Tracy Dunning**<br>**Tîm Gwella Canlyniadau i Blant** |
| **Adran:** | **Yr Is-adran Galluogi Pobl, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar** |
| **Pennaeth yr Is-adran/Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):** | **Alistair Davey, Dirprwy Gyfarwyddwr, Yr Is-adran Galluogi Pobl** |
| **Ysgrifennydd y Cabinet/Gweinidog cyfrifol:** | **Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol** |
| **Dyddiad Dechrau:** | **29/09/25** |

## RHAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Cyd-destun a'r sefyllfa bresennol

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi bod ar i fyny yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac wedi cyrraedd uchafbwynt o 7,241 yn 2021. Yn dilyn gostyngiad yn 2022, cynyddodd nifer y plant sy'n derbyn gofal yn 2023 a chynyddu fymryn mwy i 7,198 erbyn 31 Mawrth 2024. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd o 116.1 fesul 10,000 o'r boblogaeth o dan 18 oed. Mae'r nifer wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, o 5,760 yn 2013, neu 91 fesul 10,000 o'r boblogaeth.

Mae awdurdodau lleol yn darparu lleoliadau amrywiol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal:

- Gyda pherthynas ("lleoliad gyda pherthynas")
- Gyda rhieni maeth
- Mewn cartref gofal i blant
- Mewn lleoliadau preswyl eraill megis llety â chymorth, ysgol neu, mewn nifer fach o achosion, uned ddiogel
- Gyda darpar fabwysiadwr (o dan amgylchiadau penodol)

O'r garfan bresennol o blant sy'n derbyn gofal, roedd 9% wedi byw mewn tri lleoliad neu fwy yn ystod y 12 mis blaenorol. Roedd y mwyafrif (68%) mewn lleoliadau maeth, 14% wedi'u lleoli gyda'u rhieni eu hunain neu berson arall â chyfrifoldeb rhiant a 12% mewn lleoliadau preswyl.

Ar hyn o bryd, mae lleoliadau'n cael eu darparu'n uniongyrchol gan awdurdod lleol trwy ei wasanaethau mewnol, neu gan ddarparwyr yn y sector preifat a'r trydydd sector. Yng Nghymru, o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth cartref gofal i blant neu wasanaeth maethu gofrestru gyda Llywodraeth Cymru (yn ymarferol, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)).

Mae'r twf yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi arwain at duedd hirdymor o gynyddu'r defnydd o ofal, ynghyd ag amlygiad anghenion mwy cymhleth, ac mae hyn wedi cyflwyno heriau sylweddol i awdurdodau lleol ac effeithio ar blant a phobl ifanc eu hunain.

Mae'n fwyfwy anodd paru anghenion plant â lleoliadau priodol ar draws yr ystod o opsiynau, megis maethu a chartrefi gofal. Weithiau mae'n anodd i awdurdodau lleol ddod o hyd i leoliadau addas sy'n diwallu anghenion plant. Gall hyn effeithio'n negyddol ar y dewis o leoliadau a pha mor barhaol a sefydlog ydynt ac, yn y pen draw, ar ganlyniadau plant a phobl ifanc.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gwneud newidiadau rheoleiddiol i wella'r cymorth i blant a theuluoedd sy'n agored i niwed yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar fabwysiadu, maethu, gofal gan berthynas a gwarcheidiaeth arbennig. Mae'r diwygiadau hyn yn rhan o uchelgais ehangach i wneud gofal cymdeithasol plant yn fwy ymatebol a sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae'r newidiadau yn ymateb i'r heriau hirdymor a nodir uchod, y disgwyliadau addasrwydd annheg a roddir ar ofalwyr sy'n berthnasau, mynediad cyfyngedig at wasanaeth cwnsela

mabwysiadu i oedolion, cymorth anghyson ar gyfer gwarcheidiaeth arbennig a rhwystrau i symudedd gofalwyr maeth. Ar yr un pryd, maent yn cynnig cyfleoedd i foderneiddio deddfwriaeth, gwella mynediad at wasanaethau a grymuso gofalwyr a gweithwyr proffesiynol.

Nod y newidiadau yw mynd i'r afael â materion hirsefydlog trwy wneud gwasanaethau yn fwy hygyrch, cyson ac wedi'u teilwra i anghenion unigol. Trwy symleiddio gofynion cofrestru, creu gofynion asesu ar wahân ar gyfer gofalwyr maeth sy’n berthnasau, cyflwyno templedi statudol ar gyfer cynlluniau cymorth a diweddaru trefniadau cynllunio ac adolygu gofal, nod y cynigion yw lleddfu'r pwysau ar ofalwyr a staff, hyrwyddo cysondeb a sicrhau cymorth tecach sydd wedi'i deilwra fwy ledled Cymru. Mae'r diwygiadau hefyd yn cryfhau'r Mecanwaith Adolygu Annibynnol (y broses lle gall darpar ofalwr maeth neu ofalwr maeth sydd wedi'i gymeradwyo, neu ddarpar fabwysiadwr, ofyn am gael adolygiad o benderfyniad neu 'ddyfarniad o gymhwyster' a wnaed gan wasanaeth maethu neu fabwysiadu) er mwyn dod â mwy o degwch ac eglurder i benderfyniadau. Yn ogystal, mae gwneud y sefyllfa o ran mynediad at y ffi uwch ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthnasau yn gliriach yn gwella tegwch ac yn sicrhau bod gofalwyr yn cael gwybod yn llawn am eu hawliau, gan helpu i gynnal lleoliadau sefydlog a lleihau ansicrwydd ariannol.

<u>Atal</u>

Y mater dan sylw yw parhad cylchoedd negyddol fel tlodi, iechyd meddwl gwael, teuluoedd yn chwalu a rhwystrau systemig i fanteisio ar wasanaethau cymorth. Mae'r cylchoedd hyn yn aml yn golygu bod plant yn mynd i ofal yn ddiangen neu'n profi ansefydlogrwydd mewn lleoliadau gofal. Mae'r camau gweithredu arfaethedig yn ceisio torri'r cylchoedd hyn trwy ddiwygio'r fframwaith rheoleiddio i wneud gwasanaethau’n fwy hygyrch a hyblyg a sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

- Bydd **mynediad at gymorth therapiwtig** yn cael ei ehangu trwy ddileu gofynion cofrestru AGC ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu a chwnsela penodol, gan alluogi ymyrraeth gynharach a gofal sy'n ystyriol o drawma.

- Bydd **sefydlogrwydd lleoliad** yn cael ei gryfhau trwy reoliadau maethu ac asesiadau gofal gan berthynas mwy cymesur ac wedi'u teilwra, gan helpu i leihau achosion o deuluoedd yn chwalu a tharfu emosiynol.

- Mae **ymyrraeth gynnar** yn cael ei hyrwyddo trwy Fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru, gan gefnogi lleoliadau amserol, sefydlog a lles hirdymor.
- Bydd **cymorth ar gyfer gwarcheidiaeth arbennig** yn cael ei wneud yn fwy cyson trwy dempledi statudol ar gyfer cynlluniau cymorth, gan sicrhau cymorth teg a rhagweithiol o Fôn i Fynwy.

Nod y mesurau hyn gyda'i gilydd yw creu system ofal fwy ymatebol ac ataliol, gan leihau'r angen i blant fynd i ofal neu ailymuno â'r system ofal.

<u>Manteision</u>

Mae'r newidiadau’n canolbwyntio ar fynd at wraidd y broblem yn hytrach na symptomau yn unig. Mae Llywodraeth Cymru yn diwygio systemau i wneud gwasanaethau'n fwy ataliol ac

ymatebol i blant a theuluoedd. Mae cynllunio gofal yn cael ei gysoni ar draws fframweithiau cyfreithiol i sicrhau bod anghenion plant yn cael eu diwallu'n gyfannol. Mae diwygiadau i ofal gan berthynas a gwarcheidiaeth arbennig yn cefnogi rhwydweithiau teuluol, gan leihau dibyniaeth ar ofal sefydliadol. Hyd yn oed mewn sefyllfaoedd lle mae symptomau'n cael eu trin, fel gwella'r cyfnod pontio i ofalwr maeth, y nod yw trwsio aneffeithlonrwydd sylfaenol sy'n arwain at ansefydlogrwydd a chanlyniadau gwael.

Nod y newidiadau deddfwriaethol yw lleihau effeithiau negyddol posibl trwy symleiddio prosesau gweinyddol, a allai helpu i leihau'r defnydd o adnoddau ac allyriadau sy'n gysylltiedig â biwrocratiaeth. Maent yn hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol trwy gefnogi plant i aros yn eu teuluoedd a'u cymunedau, gan leihau teimladau o ynysu. Hyd yn oed lle mae gofynion cofrestru yn cael eu llacio, mae mesurau diogelu a safonau comisiynu cadarn yn parhau i sicrhau ansawdd y gwasanaeth a diogelu unigolion agored i niwed.

<u>Integreiddio</u>

Mae newidiadau Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cyfle trawsnewidiol nid yn unig ar gyfer gofal cymdeithasol plant ond ar gyfer polisi cyhoeddus ehangach hefyd. Trwy wella mynediad at gymorth therapiwtig a symleiddio llwybrau gwasanaeth, mae'r diwygiadau yn gwella iechyd meddwl a lles emosiynol yn uniongyrchol i blant a theuluoedd agored i niwed. Maent yn hyrwyddo cynhwysiant diwylliannol hefyd, trwy gefnogi hunaniaeth, perthnasoedd a'r defnydd o'r Gymraeg, gan helpu plant i aros a bwrw gwreiddiau yn eu cynefin.

Wrth fynd i'r afael â bod heb waith, mae'r newidiadau yn defnyddio dull strategol i helpu gofalwyr a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal i gyfrannu'n economaidd. Nod y newidiadau i'r broses bontio rhwng darparwyr gwasanaethau maethu yw lleihau oedi gweinyddol a gwella parhad, gan ei gwneud yn haws i ofalwyr maeth gynnal rolau ac incwm sefydlog. Bydd canllawiau cliriach ar sut i gael gafael ar lwfansau maethu uwch yn helpu gofalwyr i ddeall eu hawliau ariannol, gan eu galluogi i reoli gofal ochr yn ochr â chyflogaeth neu hyfforddiant.

O ran pobl sy'n gadael gofal, gall gwell cynllunio gofal a sefydlogrwydd lleoliad, yn enwedig trwy integreiddio cynlluniau gofal a chymorth, gefnogi proses bontio rwyddach i fyd oedolion a chynyddu mynediad at addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae'r diwygiadau hyn yn adlewyrchu dull system gyfan sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sydd nid yn unig yn cryfhau'r fframwaith gofal cymdeithasol ond hefyd yn cyfrannu at wydnwch iechyd, diwylliannol ac economaidd ehangach ledled Cymru.

Mae'r newidiadau yn croestorri â sawl maes polisi, gan sicrhau bod diwygiadau gofal cymdeithasol plant yn cyfrannu at nodau cymdeithasol ehangach. Mae'r newidiadau hyn wedi'u hintegreiddio'n ddwfn ag amcanion Rhaglen Lywodraethu ac amcanion llesiant Llywodraeth Cymru. Maent yn cyfrannu'n uniongyrchol at sawl agenda polisi cyhoeddus, gan gynnwys:

- **Iechyd:** Trwy wella mynediad at wasanaethau therapiwtig i oedolion a phlant mabwysiedig, mae'r cynigion yn cefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol.
- **Addysg**: Mae lleoliadau sefydlog a chymorth gwell i ofalwyr yn gallu arwain at ddeilliannau addysgol gwell i blant mewn gofal.

- **Bod heb waith a chynhwysiant economaidd**: Mae cymorth gwell i ofalwyr, gan gynnwys mynediad at lwfansau a phrosesau symlach, yn gallu lleihau straen ariannol a gwella cyfranogiad economaidd.
- **Diwylliant a'r Gymraeg**: Roedd yr ymgynghoriad yn ystyried yr effaith ar y Gymraeg, gan hyrwyddo darparu gwasanaethau dwyieithog a sicrhau cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

<u>Cydweithio a chynnwys</u>

Rydym wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid i gyd-ddylunio diwygiadau sy'n seiliedig ar brofiad bywyd ac arbenigedd proffesiynol. Ymhlith y partneriaid sydd â diddordeb cyffredin mae awdurdodau lleol, AGC, y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a chydweithrediadau rhanbarthol, AFKA Cymru, y Rhwydwaith Maethu, darparwyr gwasanaethau annibynnol, therapyddion, cwnselwyr, gweithwyr cymdeithasol, plant a theuluoedd â phrofiad bywyd, academyddion ac adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru. Mae'r bartneriaeth eang hon yn sicrhau bod y cynigion yn wybodus, yn gynhwysol ac yn ymateb i anghenion y sector.

Mae pobl a gaiff eu heffeithio gan y cynigion wedi galw'n gyson am gymorth mwy hyblyg, wedi'i bersonoli, yn enwedig i ofalwyr sy'n berthnasau ac oedolion mabwysiedig, ochr yn ochr â mynediad haws at wasanaethau therapiwtig a rheoliadau cliriach, mwy cyson. Hefyd, maent wedi pwysleisio pwysigrwydd cydnabod gofalwyr fel aelodau allweddol o'r tîm gofal cymdeithasol.

Mae rhanddeiliaid wedi cyfrannu'n llawn at y broses o ddatblygu'r cynigion. Mae'r dulliau ymgysylltu wedi cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol, ymchwil wedi'i dargedu gan AFKA Cymru a mentrau dan arweiniad y sector megis Fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru a Phrotocol Trosglwyddo Cymru. Mae rhanddeiliaid wedi helpu i nodi heriau ymarferol a meysydd i'w gwella. Bydd eu cyfraniad parhaus yn hanfodol wrth lywio penderfyniadau terfynol, cefnogi gweithredu trwy hyfforddiant a diweddariadau gweithdrefnol, a chyfrannu at fonitro a gwerthuso parhaus i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a theuluoedd.

<u>Effaith</u>

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig diwygiadau i wneud gwasanaethau mabwysiadu, maethu a gofal gan berthynas yn fwy hygyrch, effeithlon ac ymatebol i anghenion plant a theuluoedd.

Newid allweddol yw dileu'r gofyniad i rai darparwyr cymorth mabwysiadu a darparwyr cwnsela i oedolion gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Bydd hyn yn lleihau biwrocratiaeth ac yn annog mwy o ddarparwyr i ymuno â'r maes, gan wella mynediad at gymorth.

Nod arall y newidiadau yw symleiddio'r broses drosglwyddo ar gyfer gofalwyr maeth rhwng darparwyr, gan helpu i leihau oedi a chynnal parhad gofal i blant.

Er mwyn cefnogi gofal gan berthynas yn well, cynigir categori newydd ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthnasau, sy'n caniatáu asesiadau mwy hyblyg wedi'u teilwra i amgylchiadau

teuluol. Bydd templedi statudol ar gyfer Cynlluniau Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig hefyd yn cael eu cyflwyno i sicrhau cysondeb a thegwch ar draws awdurdodau lleol.

Bydd eglurder cyfreithiol yn cael ei wella trwy ddiwygiadau i'r Cod Ymarfer Rhan 6, gan gysoni cynllunio gofal mabwysiadu â deddfwriaeth bresennol. Er bod rhai gofynion cofrestru yn cael eu codi, bydd awdurdodau lleol yn cadw eu dyletswyddau diogelu a bydd gwiriadau comisiynu cadarn yn dal ar waith i sicrhau ansawdd y gwasanaeth.

Yn olaf, bydd newidiadau i'r Mecanwaith Adolygu Annibynnol (IRM) yn gwella tryloywder a thegwch mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar ofalwyr maeth.

Gyda'i gilydd, nod y diwygiadau hyn yw moderneiddio'r system, lleihau beichiau gweinyddol a sicrhau bod cymorth amserol, cyson ac o'r radd flaenaf ar gael i blant a theuluoedd.

<u>Risgiau</u>

Er bod y newidiadau rheoleiddiol yn cynnig manteision clir, mae rhai rhanddeiliaid yn pryderu am faterion diogelu ac ansawdd y gwasanaeth. Mae beirniaid yn poeni y gallai dileu cofrestriad AGC ar gyfer gwasanaethau cymorth mabwysiadu leihau goruchwyliaeth a golygu bod darpariaeth gwasanaethau yn anghyson ac yn llai atebol, yn enwedig mewn meysydd sensitif fel cwnsela mabwysiadu i oedolion. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o weithredu'r newidiadau hyn yn Lloegr yn awgrymu bod y risg yn isel. Mae'r broses weithredu yn gallu bod yn anghyson hefyd, gyda risgiau o anghydraddoldebau rhanbarthol os nad yw templedi a fframweithiau newydd yn cael eu mabwysiadu'n gyson.
Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio adborth gan y sector, yn monitro canlyniadau ac yn darparu canllawiau cliriach fel bo'r angen i fynd i'r afael â'r materion posibl hyn.

<u>Costau ac Arbedion</u>

Mae manylion llawn y costau a'r arbedion sy'n gysylltiedig â'r newidiadau i'w gweld yn yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol perthnasol, sydd wedi'u cyhoeddi i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r newidiadau.

<u>Mecanwaith</u>

Bydd y newidiadau'n cael eu cyflwyno trwy is-ddeddfwriaeth ar ffurf Offerynnau Statudol a Chodau Ymarfer statudol.

## ADRAN 8. CASGLIAD

### 8.1 Sut mae pobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi cyfrannu at y gwaith o'i ddatblygu?

Mae pobl sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y newidiadau rheoleiddiol wedi'u cynnwys trwy broses eang a chynhwysol a gynlluniwyd i sicrhau bod eu barn yn llywio ei datblygiad. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am farn unigolion a sefydliadau sydd â phrofiad uniongyrchol o'r system ofal, gan gynnwys plant a phobl ifanc, eu cynrychiolwyr a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau.

Roedd gweithgareddau ymgysylltu yn cynnwys ymarferion ymgynghori, fforymau cydweithredol a thrafodaethau dan arweiniad y sector. Cawsant eu cynllunio i fod yn hygyrch ac yn dryloyw, gyda deunyddiau dwyieithog ac ystod o fformatau wedi'u cynnig er mwyn helpu pobl ag anghenion a hoffterau gwahanol i gymryd rhan. Gwnaed ymdrechion i sicrhau bod ystod eang o safbwyntiau yn cael eu hystyried, gan gynnwys rhai o gefndiroedd, cymunedau a grwpiau iaith gwahanol.

Mae adborth a gasglwyd trwy'r broses hon wedi llywio'r cynigion mewn ffyrdd ystyrlon. Er enghraifft, mae newidiadau sydd â'r nod o wella mynediad at gymorth mabwysiadu a gwasanaethau cwnsela yn ymateb i bryderon am rwystrau presennol. Mae addasiadau i fframweithiau maethu a gofal gan berthynas yn adlewyrchu'r angen am systemau mwy hyblyg a chymesur. Mae datblygu cynlluniau cymorth gwarcheidiaeth arbennig yn adeiladu ar broses ymgynghori gydag ymarferwyr a rhanddeiliaid i hyrwyddo cysondeb ac eglurder.

Trwy seilio'r newidiadau ar brofiad ymarferol a dealltwriaeth broffesiynol, nod Llywodraeth Cymru yw cyflawni diwygiadau sy'n deg, yn gyraeddadwy ac yn ymateb i anghenion y rhai a gaiff eu heffeithio fwyaf.

### 8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Mae diwygiadau Llywodraeth Cymru i wasanaethau mabwysiadu, maethu a gofal gan berthynas yn nodi cam sylweddol tuag at drawsnewid gofal cymdeithasol plant yng Nghymru. Nod y newidiadau yw symleiddio rheoleiddio, gwella mynediad at gymorth a chreu system sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r effeithiau cadarnhaol a negyddol yn ymestyn ar draws pobl, diwylliant a'r Gymraeg, yr economi a'r amgylchedd, ac yn cyd-fynd â saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

I bobl, y budd amlycaf yw mynediad gwell at wasanaethau cymorth. Trwy ddileu'r gofyniad i rai darparwyr gofrestru gydag AGC, yn enwedig y rhai sydd wedi'u contractio gan awdurdodau lleol neu sy'n cynnig gwasanaeth cwnsela i oedolion, mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd mwy o weithwyr proffesiynol ar gael i ddarparu cymorth. Mae hyn yn arbennig o bwysig i oedolion mabwysiedig, sy'n wynebu rhwystrau ar hyn o bryd oherwydd darparwyr cofrestredig cyfyngedig. Mae'r diwygiadau hefyd yn egluro cynllunio gofal ar gyfer mabwysiadu, gan helpu gweithwyr cymdeithasol i lywio fframweithiau cyfreithiol cymhleth a gwella canlyniadau i blant.

Bydd gofalwyr sy’n berthnasau yn elwa ar broses asesu wedi'i deilwra sy'n cydnabod eu hamgylchiadau unigryw. Mae creu gofynion asesu ar wahân ar gyfer gofalwyr maeth sy’n berthnasau, gyda meini prawf gwahanol, yn cydnabod y gwahaniaeth rhwng gofal teuluol a maethu prif ffrwd. Disgwylir i'r hyblygrwydd hwn leihau biwrocratiaeth ddiangen ac adlewyrchu'n well realiti trefniadau gofal gan berthynas, gan arwain at leoliadau mwy sefydlog a llesiant gwell i blant.

Mae cyflwyno gofyniad statudol i awdurdodau lleol ddefnyddio'r templed Cynllun Cymorth Gwarcheidwad Arbennig yn ddatblygiad allweddol arall. Mae'r templed hwn yn darparu fframwaith cyson ar gyfer nodi a diwallu anghenion gwarcheidwaid arbennig, plant a theuluoedd. Mae'n cynnwys arferion gorau ac ymchwil, a bydd ei ddefnydd cyson yn helpu i leihau gwahaniaethau mewn cymorth ledled Cymru, gan sicrhau bod teuluoedd yn cael yr help sydd ei angen arnynt waeth ble maen nhw.

Bydd y newidiadau i'r Mecanwaith Adolygu Annibynnol (IRM) hefyd yn cryfhau tegwch a thryloywder. Trwy ddiweddaru'r rheoliadau i ganiatáu i'r panel IRM ofyn am asesiad llawn yn dilyn adroddiad byr, mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau nad yw ymgeiswyr yn cael eu gwahardd yn annheg rhag maethu oherwydd gwerthusiadau anghyflawn. Mae'r newid hwn yn gwella uniondeb y broses adolygu ac yn cefnogi hawliau darpar ofalwyr.

Wrth faethu, mae'r diwygiadau i'r broses drosglwyddo rhwng darparwyr gwasanaeth yn arbennig o effeithiol. Ar hyn o bryd, gall oedi a materion rhannu gwybodaeth rwystro gallu gofalwyr i symud rhwng darparwyr. Trwy ymwreiddio elfennau o Brotocol Trosglwyddo Cymru mewn deddfwriaeth, nod Llywodraeth Cymru yw symleiddio'r broses hon, gwella diogelu a lleihau beichiau gweinyddol. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i ofalwyr maeth barhau â'u gwaith heb darfu diangen a bydd yn cefnogi parhad gofal i blant.

Mae pryderon y gallai dileu gofynion cofrestru leihau goruchwyliaeth, ond mae Llywodraeth Cymru yn hyderus y bydd y trefniadau comisiynu presennol a'r gwiriadau statudol yn cynnal safonau. Efallai y bydd rhai gofynion i awdurdodau lleol eu cyflawni hefyd wrth bontio, gan gynnwys yr angen i hyfforddi staff a diweddaru'r system.

Yn ddiwylliannol, mae'r newidiadau rheoleiddiol yn gadarnhaol ar y cyfan. Mae'r ymgynghoriad yn pwysleisio pwysigrwydd trin y Gymraeg yr un fath â’r Saesneg ac yn cefnogi darparu gwasanaethau dwyieithog. Mae'r meini prawf asesu newydd ar gyfer gofal gan berthynas yn cynnwys ystyried cefndir diwylliannol ac ieithyddol, gan gefnogi lleoliadau sy'n parchu treftadaeth plant. Serch hynny, heb orfodi cryf, mae perygl o anghysondeb yn y ddarpariaeth Gymraeg ar draws rhanbarthau.

Yn economaidd, disgwylir i'r diwygiadau gyflawni arbedion effeithlonrwydd. Bydd symleiddio prosesau cofrestru a throsglwyddo yn lleihau beichiau gweinyddol ac oedi, gan leihau costau i awdurdodau lleol a darparwyr o bosibl. Trwy ei gwneud yn haws i weithwyr proffesiynol gynnig gwasanaethau, gall y newidiadau ysgogi twf yn y sector gofal cymdeithasol.

Er nad yw'r newidiadau yn targedu canlyniadau amgylcheddol yn uniongyrchol, gall manteision anuniongyrchol godi. Gallai annog lleoliadau lleol ac amserlenni ymweld hyblyg leihau amser teithio i weithwyr cymdeithasol a gofalwyr.

Mae'r themâu sy'n codi o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cynnwys yr angen am fwy o hyblygrwydd mewn gofal gan berthynas, mynediad gwell at gwnsela i oedolion a

chanllawiau cliriach i ymarferwyr. Mae cefnogaeth gref i gydnabod cyfraniadau gofalwyr maeth a symleiddio eu symudiad rhwng darparwyr. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cyd-fynd â sawl nod llesiant, gan gynnwys Cymru iachach (trwy gymorth iechyd meddwl gwell), Cymru sy'n fwy cyfartal (trwy leihau rhwystrau systemig) a Chymru o gymunedau cydlynus (trwy gefnogi gofal teuluol).

O'i gymharu â chamau gweithredu presennol Llywodraeth Cymru, sy'n aml yn cael eu cyfyngu gan fframweithiau anhyblyg a chefnogaeth anghyson, mae'r newidiadau yn cynrychioli newid tuag at wasanaethau mwy ymatebol, cynhwysol ac effeithlon. Maent yn adlewyrchu ymrwymiad i newid radical i'r system gyfan a gweledigaeth o Gymru fel lle i blant a phobl ifanc dyfu.

**8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut fydd y cynnig:**

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf tuag at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu**
- **yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Nod diwygiadau Llywodraeth Cymru yw creu system ofal fwy cynhwysol a theg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r newidiadau hyn yn cefnogi saith nod llesiant *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.

**Cymru iachach**

Wrth wraidd y diwygiadau mae ymrwymiad i wella iechyd meddwl a lles emosiynol i blant, teuluoedd ac oedolion mabwysiedig. Trwy gael gwared ar rwystrau i gyrchu cymorth megis y gofyniad i rai darparwyr gofrestru gydag AGC, nod Llywodraeth Cymru yw ehangu argaeledd gwasanaethau cwnsela a therapiwtig. Mae'r dull hwn sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn sicrhau bod unigolion yn cael cymorth amserol, priodol, gan gyfrannu'n uniongyrchol at Gymru iachach lle mae iechyd meddwl yn cael blaenoriaeth ochr yn ochr ag iechyd corfforol.

**Cymru sy'n fwy cyfartal**

Mae'r diwygiadau wedi'u cynllunio i leihau gwahaniaethau yn y ddarpariaeth gwasanaethau a sicrhau tegwch ledled y wlad. Bydd cyflwyno gofyniad statudol i awdurdodau lleol ddefnyddio'r templed Cynllun Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig yn helpu i safoni cymorth, gan sicrhau bod gwarcheidwaid arbennig, plant a theuluoedd yn cael gofal cyson waeth beth fo'u lleoliad. Yn ogystal, mae gwelliannau i'r IRM, megis caniatáu i'r panel ofyn am asesiad llawn, yn gwella tryloywder a thegwch wrth wneud penderfyniadau maethu. Mae'r mesurau hyn yn hyrwyddo cydraddoldeb trwy sicrhau bod pob unigolyn yn cael ei drin yn deg ac yn cael yr un ansawdd o gymorth.

Yn bwysig, mae egluro'r ffi uwch ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthnasau yn gwella tryloywder a mynediad at gymorth ariannol. Mae gofalwyr sy'n berthnasau yn aml yn derbyn cyfrifoldebau sylweddol, ac mae canllawiau cliriach yn sicrhau eu bod yn deall eu hawl i'r ffi uwch. Mae hyn yn helpu i gael gwared ar ddryswch ac yn sicrhau bod gofalwyr sy'n berthnasau yn cael eu trin yn deg, gan gefnogi dull mwy cyson a theg ledled Cymru.

**Cymru o gymunedau cydlynus**
Gan gydnabod pwysigrwydd cysylltiadau teuluol a chymunedol, mae'r cynigion yn cynnwys llwybr asesu penodol ar gyfer gofalwyr maeth sy’n berthnasau. Mae'r llwybr hwn yn cydnabod perthnasoedd presennol a dynameg y teulu, gan leihau biwrocratiaeth ddiangen a chefnogi lleoliadau mwy sefydlog. Trwy gadw plant yn eu teuluoedd a'u cymunedau estynedig, mae'r diwygiadau yn cryfhau cwlwm cymdeithasol ac yn cyfrannu at gymunedau cydlynus. Mae symleiddio'r broses drosglwyddo ar gyfer gofalwyr maeth rhwng darparwyr gwasanaethau hefyd yn helpu i gynnal parhad gofal, gan leihau aflonyddwch i blant a chefnogi gofalwyr yn eu rolau.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**
Mae'r diwygiadau yn cynnal safonau moesegol wrth ddarparu gofal, gan ategu ymrwymiad Cymru i gyfrifoldeb byd-eang. Er y gall dadgofrestru rhai darparwyr o AGC godi pryderon am oruchwyliaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi adeiladu mesurau diogelu trwy drefniadau comisiynu. Mae awdurdodau lleol yn parhau i fod yn gyfreithiol gyfrifol am wirio cymwysterau, geirdaon a chofnodion troseddol, gan sicrhau bod safonau uchel o ofal a diogelwch yn cael eu cynnal. Mae gwelliannau i'r broses IRM yn diogelu hawliau darpar ofalwyr ymhellach, gan sicrhau bod penderfyniadau'n seiliedig ar wybodaeth gyflawn a chywir.

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**
Mae hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol yn ganolog i les plant a theuluoedd. Mae'r newidiadau'n cynnwys mesurau penodol i gefnogi darpariaeth Gymraeg, megis ymgorffori ystyriaethau diwylliannol ac ieithyddol mewn meini prawf asesu ac annog darparu gwasanaethau dwyieithog. Mae'r broses ymgynghori hefyd yn gwahodd adborth ar sut i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg, gan sicrhau nad yw'r iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r camau hyn yn helpu i warchod a hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol Cymru, gan sicrhau bod gwasanaethau'n adlewyrchu hunaniaethau amrywiol y rhai y maent yn eu cefnogi.

**Cymru lewyrchus**
Mae effeithlonrwydd economaidd yn ystyriaeth allweddol yn y diwygiadau arfaethedig. Trwy leihau biwrocratiaeth, symleiddio prosesau ac adeiladu ar fframweithiau presennol fel Fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru a Phrotocol Trosglwyddo Cymru, nod Llywodraeth Cymru yw cyflawni canlyniadau gwell trwy ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithiol. Gall cefnogi gofalwyr a theuluoedd trwy systemau symlach a chanllawiau cyson leihau costau hirdymor trwy atal lleoliadau rhag chwalu a gwella sefydlogrwydd. Mae'r newidiadau hyn yn cyfrannu at Gymru fwy lewyrchus trwy sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn darparu gwerth wrth ddiwallu anghenion dinasyddion.

**Cymru gydnerth**
Er nad yw'r newidiadau yn targedu canlyniadau amgylcheddol yn uniongyrchol, gallant arwain at fanteision anuniongyrchol sy'n cefnogi gwydnwch. Gallai annog lleoliadau lleol ac amserlenni ymweld hyblyg leihau gofynion teithio i weithwyr cymdeithasol a gofalwyr, lleihau allyriadau carbon a hyrwyddo cynaliadwyedd. Trwy ymwreiddio hyblygrwydd ac ymateboldeb mewn systemau gofal, mae'r diwygiadau hefyd yn gwella gwydnwch gwasanaethau, gan eu galluogi i addasu i anghenion ac amgylchiadau sy'n newid.

## Casgliad

Gyda'i gilydd, mae'r diwygiadau hyn yn nodi trawsnewidiad sylweddol o wasanaethau mabwysiadu, maethu, gofal gan berthynas a gwarcheidiaeth arbennig yng Nghymru. Eu nod yw gwella canlyniadau i blant a theuluoedd wrth gefnogi nodau llesiant Llywodraeth Cymru. Trwy hyrwyddo iechyd, cydraddoldeb, cydlyniant cymunedol, cynhwysiant diwylliannol a thegwch economaidd, ochr yn ochr â mesurau diogelu i leihau risgiau, mae'r diwygiadau'n adlewyrchu gweledigaeth gyfrifol ac uchelgeisiol ar gyfer Cymru sy’n annog ac sy’n gynhwysol.

### 8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a’i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Bydd effaith y newidiadau yn cael ei monitro a'i gwerthuso trwy gyfuniad o fecanweithiau statudol, cydweithredu sector a dolenni adborth wedi'u hymwreiddio yn y fframwaith rheoleiddio. Wrth i'r newidiadau arfaethedig gael eu rhoi ar waith, bydd disgwyl i awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau gadw at y Codau Ymarfer wedi'u diweddaru a'r rheoliadau diwygiedig, sy'n cynnwys canllawiau a disgwyliadau cliriach ar gyfer prosesau darparu, asesu ac adolygu gwasanaethau.

Bydd monitro yn cael ei gefnogi gan oruchwyliaeth annibynnol, megis rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol wrth bennu amseroedd adolygu ar gyfer lleoliadau gofal gan berthynas, a gan AGC lle mae cofrestru yn parhau i fod yn berthnasol. Yn ogystal, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gall gomisiynu dadansoddiad pellach trwy drydydd partïon achrededig i asesu effeithiolrwydd y newidiadau.

Bydd gwerthuso hefyd yn digwydd trwy ymgysylltu â'r sector, gan gynnwys adborth gan ymarferwyr, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Er enghraifft, bydd y defnydd statudol o dempledi Cynllun Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig yn hyrwyddo cysondeb ac yn caniatáu dadansoddiad cymharol ar draws awdurdodau lleol.

Ar ddiwedd y cam gweithredu, bydd y newidiadau’n cael eu hadolygu ar y cyd i werthuso eu heffeithiolrwydd cyffredinol. Bydd hyn yn helpu i benderfynu a yw'r gwelliannau bwriedig wedi'u cyflawni a sicrhau bod y diwygiadau'n cyfrannu'n ystyrlon at ganlyniadau gwell i blant a theuluoedd ledled Cymru.